Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol. Mae lles disgyblion a staff yn cael blaenoriaeth uchel gan arweinwyr, ac o ganlyniad, mae perthnasoedd cryf o barch yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae gwerthoedd 'cyfeillgarwch', 'cyfrifoldeb', 'caredigrwydd', 'cwrteisi' a 'Chymreictod' yn rhan annatod o amgylchedd dysgu'r ysgol. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r gwerthoedd hyn sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hymddygiad da.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu hanes a diwylliant yr ardal leol. Rhoddir pwyslais cryf ar godi dyheadau ac ysbrydoli'r disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol drwy ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu ysgogol, er enghraifft wrth gynnal wythnosau gyrfaoedd a thrwy wahodd gwahanol ymwelwyr i'r ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol o'u mannau cychwyn. Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. Ar y cyfan, mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd tu allan. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol na'u gallu creadigol yn yr ardaloedd y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth. Mae'n gosod disgwyliadau uchel i holl aelodau'r ysgol ac yn cynllunio cyfleoedd amrywiol i gefnogi datblygiad proffesiynol y staff. Mae arweinwyr wedi creu gweledigaeth gytûn sy'n dangos balchder yng nghymuned leol yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn ymroi'n briodol i gefnogi a herio arweinwyr. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd ffurfiol i lywodraethwyr gael eu cynnwys mewn gweithgareddau i gefnogi prosesau hunanwerthuso'r ysgol.

# Argymhellion

**A1** **Datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf feithrin a datblygu eu medrau dysgu annibynnol a'u gallu creadigol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth**

**A2** **Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith**

**A3** **Cryfhau rôl y llywodraethwyr i'w galluogi i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 382 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 276 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 67 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 24.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 39.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 10.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.